

❖ BU'R DISGWYL YN HIR

Bu'r disgwyl yn hir. Wyth canrif ynghynt, dywedwyd y byddai'n dod. Mae hynny yn ddeuddeg cenedlaeth ar hugain! Yn araf iawn mae'r olwynion yn troi weithiau. Faint oedd wedi anobeithio y deuai o gwbl tybed?

Addawyd y byddai un o dras frenhinol yn dod; bydd yn Fab Dafydd, brenin mwyaf yr Iddewon. Bydd yn sefydlu teyrnas, un heb ddiwedd arni. Bydd y byd yn lle gwahanol wedi i'r Brenin heddychol hwn ymddangos.

Yng nghyflawnder yr amser fe ddaeth. Daeth i fyd tywyll, treisgar. Daeth i gyrion llwm yr Ymerodraeth, heibio i balas Herod, heibio i gartre'i rieni hyd yn oed, heibio i'r llety, a'i eni gyda'r tlotaf o'r tlawd.

Yng Nghanaan y ganrif gyntaf roedd pobl wedi blino ar fod dan draed, heb neb yn ymgynghori â nhw, a chymaint o drais. Pam bod rhaid i'r rhai bach diniwed ddioddef? Pam bod y nos yn para mor hir?

Yng Nghymru ar ddechre'r trydydd mileniwm disgwyliwn ni mewn lle breintiedig. Mae cymaint yn ein byd sy'n dyheu'n ddyfnach na ni, a chymaint sy'n anobeithio'n ddwysach na ni.

Am beth y disgwyliwn ni? Onid yw popeth gennym? Mae'r pyramid o anrhegion wedi'i orchuddio ag addurniadau disglair a goleuadau lliwgar. Beth sy'n eisiau? Beth sydd ar goll? Mae cymaint gennym.

Mae cyn lleied gennym. Mae ein byw bras hunan ganolog yn tagu'n cariad ac yn gwenwyno'n daear. Ynghanol ein digonedd aethom yn dlawd. Beth sydd gennym ond ein teganau?

Daeth y bugeiliaid tlawd, ac addoli. Daeth y doethion da eu byd, a phenlinio.

A deuwn ninnau'r Nadolig hwn i chwilio am y baban ac i weld y rhyfeddod: Duw hollalluog yn ein plith yn faban. Mae cymaint o angen arnom am yr un sy'n gwneud pob peth yn newydd. 'Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.'

Daeth y Tywysog i newid y byd a sefydlu teyrnas heb ddim yn ei law, heb bastwn na chwip na chleddyf.

Daeth heb fyddin, heb gefnogwyr ffyddlon a theyrngar.

Daeth heb ddim ond ei eiriau,
Geiriau doethineb a chariad;
Geiriau llym a thyner;
Geiriau i herio'r hunanfodlon.

Wrth iddo gerdded cododd y rhesi o rai claf a diobaith a llwm,
A hwythau'n dawnsio yn eu hiechyd a'u llawnder a'u llawenydd.
Hwn yw'r Arglwydd y bu mamau'r oesoedd yn dyheu amdano,
Yr un sy'n anfon bechgyn a merched, nid i ryfel, ond i gynaeafu'r grawn i fwydo'r byd.
Ganwyd Iesu i'r byd yn oleuni; unwaith ac am byth.
Deued i'n calonnau ninnau, yn ei wendid ac yn ei rym.
Cofleidiwn ef.

Dewi M. Hughes